

YMARFER 4 i'r Saesneg: Sylwadau

Mae Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru¹ wedi lansio rhwydwaith newydd er mwyn gwella sut mae athrawon yn dysgu'r Cyfnod Sylfaen².

Nod 'Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen'³ yw dod ag arweinwyr amlwg o bob rhan o fyd addysg at ei gilydd⁴ er mwyn rhoi mwy o gymorth i'r athrawon hynny sy'n gweithio gyda phlant rhwng tair a saith oed⁵.

Mae'r rhwydwaith yn derbyn cymorth ariannol gwerth £1m gan Lywodraeth Cymru⁶, ac fe fydd yn cael ei gefnogi gan gynrychiolwyr o wasanaethau addysg awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau gofal plant⁷ sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen⁸, yn ogystal â sefydliadau Addysg Uwch, consortia rhanbarthol a sefydliadau'r trydydd sector⁹.

Y gobaith yw y bydd y rhain yn rhannu arbenigedd, profiadau, gwybodaeth ac arferion â'i gilydd¹⁰, a bydd adnoddau ar-lein yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol hefyd ar gael i athrawon¹¹.

Bydd y rhwydwaith diweddaraf hwn yn gallu adeiladu ar lwyddiant modelau sydd eisoes ar gael mewn pynciau eraill fel Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg¹².

Wrth lansio'r rhwydwaith, dywedodd Kirsty Williams¹³, "Mae ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud gwaith rhyfeddol¹⁴. Er bod eu swydd yn un hynod o anodd, mae hefyd yn un fuddiol iawn¹⁵, ac mae'r ymarferwyr hyn yn haeddu pob cefnogaeth¹⁶.

"Bydd y rhwydwaith hwn a'i adnoddau ar-lein yn cynnig lefel newydd o ddatblygiad proffesiynol yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer ysgolion.¹⁷

"Mae'r datblygiad hwn yn mynd i wraidd¹⁸ yr hyn a welwn ni fel ein cenhadaeth genedlaethol¹⁹, ac mae'r cwricwlwm newydd yn ymwneud â chodi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg²⁰ y gall pawb ohonom ymfalchïo ynddi²¹."

[addasiad o erthygl yn *go/wg360*]

1. Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Welsh Education Secretary*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The Welsh Government's Education Secretary*
2. *The Welsh Government Education Secretary*
3. *The Welsh Government Secretary for Education*

SYLWADAU:

1. Cyn dechrau cyfieithu, rhaid i'r cyfieithydd ystyried y testun cyfan a'r cywair fydd yn briodol i'r testun hwnnw. Nid yw Afl.1 wedi cyfieithu'r gair 'llywodraeth' ac mewn testun o'r math hwn, sef erthygl sy'n rhoi gwybodaeth am weithgarwch llywodraeth ein gwlad, nid yw hyn yn gwneud y tro.

2. Nid yw cynnig Ll.1 yn anghywir ond nid oes rhaid wrth yr olddodiad genidol 's.

2. **...wedi lansio rhwydwaith newydd er mwyn gwella sut mae athrawon yn dysgu'r Cyfnod Sylfaen.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...has launched a new programme to improve the way teachers teach the Foundation Stage.*
2. *...has launched a network in order to improve how teachers teach the Foundation Period.*
3. *...has launched a new strategy in order to improve how teachers deliver the curriculum during the Foundation Stage.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...has launched a new network to improve how teachers deliver the Foundation Phase.*
2. *...has launched a new network to improve teachers' delivery of the Foundation Phase.*
3. *...has launched a new network to improve teaching during the Foundation Phase.*

SYLWADAU:

1. Nid yw pob cyfieithydd yn gweithio ym maes addysg a dan amodau arholiad ni fyddai disgwyl i gyfieithydd wybod mai *Foundation Phase* yw 'Cyfnod Sylfaen' ac fel arall. Ond disgwylir y byddai cyfieithydd o dan amodau arferol yn mynd i chwilio yn lle dyfalu. O dan amodau arholiad, disgwylir y bydd cyfieithydd yn nodi unrhyw dermau y mae'n ansicr ohonynt mewn troednodyn.

2. Mae Afl.1 yn cyfieithu 'rhwydwaith' fel *programme*, ac Afl.3 yn ei gyfieithu fel *strategy*. Dylid gochel rhag cyfieithu llac. Mae termau fel 'strategaeth', 'rhwydwaith', 'rhaglen' i'w gweld yn gyffredin ym meysydd llywodraeth ac addysg ac mae pob un yn golygu rhywbeth pur wahanol. Mae Afl.2 wedi defnyddio *network* ond wedi anghofio cyfieithu'r gair 'newydd'.

3. Mae Afl.1 ac Afl.2 wedi cyfieithu 'er mwyn gwella' fel *in order to improve*. Nid yw hyn yn anghywir ond mae'n glogyrnaidd ac fel rheol gellir ei hepgor yn Saesneg a defnyddio *to* ar ei ben ei hun.

4. *teach*. 'Dysgu' sydd yn y gwreiddiol felly nid yw 'teach' yn anghywir ond mae'n bosib defnyddio *deliver* hefyd fel a welir yn Ll.1 a Ll.2, neu ddefnyddio *teaching* ar ei ben ei hun fel yn Ll.3 a thrwy hynny osgoi *teachers teach*.

5. Mae Afl.3 yn cyfieithu 'dysgu' fel *deliver the curriculum*. Nid yw'r gair *curriculum* yn y gwreiddiol ac nid oes mo'i angen i egluro'r ystyr. Dylid gochel rhag gorgyfieithu. (Ystyr 'gorgyfieithu' yw ychwanegu geiriau neu

gysyniadau nad ydynt yn y gwreiddiol).

6. **'er mwyn gwella sut mae athrawon yn dysgu'**. Nid oes dim byd o'i le ar gyfieithiad 'llythrennol' – *the way/how teachers teach/deliver*. Ond yn aml iawn bydd Saesneg yn defnyddio enw lle bydd y Gymraeg yn defnyddio berf i fynegi gweithred. Mae Ll.2 yn defnyddio *improve teachers' delivery of* ac mae Ll.3 yn defnyddio *improve teaching during the foundation phase*.

3. Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Network for Excellence in the Foundation Stage*
2. *Foundation Stage Strategy of Excellence*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The Foundation Phase Excellence Network*

SYLW:

Unwaith eto, ni fyddai disgwyl i gyfieithwyr wybod y fersiwn Saesneg o enw'r rhwydwaith ond byddai disgwyl iddynt fynd i chwilio, ac o dan amodau arholiad byddai disgwyl iddynt nodi unrhyw ansicrwydd trwy ychwanegu troednodyn. Hyd yn oed os dyfalu'r ffurf gywir a wneir, dylai'r dyfaliad adlewyrchu elfennau'r gwreiddiol yn gywir a dylai fod ôl meddwl arno.

4. Nod... yw dod ag arweinwyr amlwg o bob rhan o fyd addysg at ei gilydd...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...aims to gather together eminent leaders from every part of the education world*
2. *The aim... is to bring the obvious leaders from every section of the education world together.*
3. *The aim... is to bring prominent leaders from all areas of the world of education together.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...aims to bring prominent leaders together from all aspects of education*
2. *The aim... is to bring together prominent leaders from all over the education sector.*

SYLWADAU:

1. **'arweinwyr amlwg'**. Mae Afl.1 yn defnyddio *eminent* sy'n golygu 'enwog a medrus iawn' neu 'o statws uchel iawn yn y maes'. Defnyddir *eminent* i gyfeirio at bobl fel y diweddar Stephen Hawking. Mae Afl.2 yn defnyddio *obvious* sydd yn golygu 'amlwg' yn yr ystyr 'eglwyr', 'heb fod wedi ei guddio' e.e. 'Mae'r ateb yn amlwg'. *The answer is obvious*. Mae Ll.1 a Ll.2 yn defnyddio'r gair mwyaf priodol, sef, *prominent* sydd, fel *eminent* yn golygu 'o statws uchel' ac 'adnabyddus' ond nad yw mor ddirchafedig ag *eminent*.

2. **'o bob rhan o fyd addysg.'** Mae'r Gymraeg yn hoff o ddefnyddio 'byd' i

ddynodi maes penodol o fywyd neu waith e.e. 'byd addysg', 'byd gwaith', 'byd y bêl', ond nid yw hyn mor gyffredin yn Saesneg sy'n tueddu i ddefnyddio gair fel 'sphere' neu 'area' neu ei hepgor yn gyfan gwbl. Mae Afl.2 ac Afl.3 yn defnyddio *all areas of the world of education, every section of the education world* ond mae Ll.1 a Ll.2 yn dewis ymadroddion byrrach, mwy cryno *all aspects of education/all over the education sector*.

3. 'dod ag arweinwyr amlwg...at ei gilydd'. Oherwydd y gystrawen yn Gymraeg nid yw'n bosib dweud 'dod ag at ei gilydd arweinwyr amlwg' ond yn Saesneg mae'n bosib dweud *bring together prominent leaders* fel y mae Ll.2 wedi gwneud, a dyna'r ffordd fwyaf naturiol o ddweud hyn. Dylid cofio nad yw cyfyngiadau cystrawennol un iaith o anghenraid yn bodoli yn yr iaith arall, a dylai'r cyfieithydd fod yn ymwybodol o bosibiliadau gwahanol pob iaith. Mae hefyd yn bosib defnyddio *to bring prominent leaders together* fel y mae Ll.1 yn gwneud. Mae Afl.2 ac Afl.3 yn rhoi 'together' ar ddiwedd y frawddeg fel yn y Gymraeg, ac mae'r frawddeg hir yn golygu bod cryn fwch rhwng 'bring' a 'together' sy'n gwneud y frawddeg yn glogyrnaidd.

5. **...er mwyn rhoi mwy o gymorth i'r athrawon hynny sy'n gweithio gyda phlant rhwng tair a saith oed.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...in order to give more help to the teachers who are working with children aged between three and seven years old.*
2. *...in order to greater support those teachers working with children between ages three and seven.*
3. *...to offer additional assistance to those teachers who work with children aged between three and seven.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...in order to give more support to teachers who work with children aged between three and seven.*
2. *...in order to provide more support to teachers working with children between three and seven years old.*

SYLWADAU:

1. 'rhoi mwy o gymorth'. *Give/provide more support* yw'r cyfieithiad gorau fel y gwelir yn Ll.1 a Ll.2. Mae *help* yn air rhy anffurfiol yn y cywair hwn. Mae Afl.2 yn defnyddio *to greater support* sy'n awgrymu bod gair ar goll. 'To give greater support' sy'n ramadegol gywir.

2. 'i'r athrawon hynny sy'n gweithio'. Mae Afl.1, Afl.2 ac Afl.3 wedi dilyn y Gymraeg yn agos e.e. Afl.3 *to those teachers* ac Afl.1 *who are working with*. Nid oes angen cyfieithu 'yr....hynny' ac nid oes angen y ferf 'bod' *who are*. Mae Ll.2 yn defnyddio *teachers working with children* ac mae hynny'n ddigon.

3. 'rhwng tair a saith oed'. Mae sawl ffordd o fynegi hyn yn Saesneg: 'between the ages of three and seven', *aged between three and seven* (Ll.1) neu *between three and seven years old* (Ll.2). Mae Afl.1 yn defnyddio'r ddau ac mae'n glogyrnaidd. Mae *between ages three and seven* (Afl.2) yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ond nid yw mor safonol.

6. **Mae'r rhwydwaith yn derbyn cymorth ariannol gwerth £1m gan Lywodraeth Cymru...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *The strategy will receive financial support worth £1m from the Welsh government...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *The network receives £1m of financial support from the Welsh government...*
2. *The network receives financial support to the value of £1m from the Welsh Government...*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 yn defnyddio'r amser dyfodol *will receive* yn lle amser presennol y gwreiddiol, sy'n newid ystyr y frawddeg yn llwyr.
2. Mae Afl.1 yn defnyddio *strategy* yn lle *network*. Unwaith eto, mae termau manwl gywir yn bwysig.
3. '**cymorth ariannol gwerth £1m**'. Mae Afl.1 yn cyfieithu'n llythrennol *financial support worth £1m* ac er ei fod yn ddealladwy mae'r Saesneg yn tueddu i ddefnyddio *£1m of financial support* fel yn Ll.1. Mae ymgais Ll.2, *to the value of £1m*, yn iawn ond pam defnyddio dau air pan fydd un yn gwneud y tro?

7. **...ac fe fydd yn cael ei gefnogi gan gynrychiolwyr o wasanaethau addysg awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau gofal plant...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and it will be supported by representatives from local authorities educational services, schools and childcare establishments*
2. *...and it will be supported by representatives from the local authority educational services, schools and childcare placements*
3. *...and it will be supported by the representatives of local authorities education services, schools and childcare locations*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...and will be supported by representatives from local authority education services, schools and childcare settings*

SYLWADAU:

1. *And will be supported* (Ll.1). Nid oes angen ailadrodd y rhagenw personol '*it*' os yw'r un goddrych i'r ddwy ran o'r frawddeg, er nad yw'n anghywir.
2. '**gwasanaethau addysg awdurdodau lleol**'. Ystyr hwn yw 'y gwasanaethau addysg sy'n perthyn i'r awdurdodau lleol'. Yn y Gymraeg mae angen defnyddio'r lluosog yn nau hanner yr ymadrodd. Yn Saesneg nid oes angen hynny. Gellir dweud, fel yn Ll.1 *local authority education services*. Cymharwch ymadroddion tebyg yn Gymraeg a Saesneg: '*book fair*'/'ffair lyfrau', '*crocodile farm*'/'fferm crocodeilod'. Yn y ddau achos mae mwy nag un llyfr neu grocodeil! Ond nid oes angen y lluosog yn Saesneg, dim ond yr unigol ac nid oes angen yr olddodiad genidol 's. Dyna pam

mae ymgais Afl.1 ac Afl.3 *local authorities education[al] services* yn anghywir.

3. Nid yw *educational* (Afl.1 ac Afl.2) yn gywir. Nid gwasanaethau addysgol (addysgol eu natur) yw'r rhain ond gwasanaethau sy'n darparu addysg.

4. '**Ileoliadau gofal plant**'. Soniwyd o'r blaen bod cyd-destun yn hollbwysig wrth gyfieithu. Gall 'Ileoliadau' olygu '*placements*' e.e. yng nghyd-destun hyfforddi athrawon neu weithwyr cymdeithasol lle gosodir darpar ymarferwyr mewn lleoliad penodol i ymarfer eu crefft. Ond yn yr achos yma mae'r cyd-destun yn dangos yn glir mai 'sefydliadau' neu 'safleoedd' sydd dan sylw. Fel y nodwyd uchod, mae'n hollbwysig cadw'r testun cyfan mewn golwg wrth gyfieithu. Hyd yn oed os nad yw cyfieithydd yn gyfarwydd â byd addysg, bydd eisoes wedi cyfieithu'r frawddeg sy'n cyfeirio at blant tair i saith oed, a dylai hynny awgrymu bod y gair 'Ileoliadau' yn cyfeirio at sefydliadau sy'n gofalu am blant sy'n rhy ifanc i fynd i'r ysgol. *Settings* yw'r gair a ddefnyddir fynyachaf yn Saesneg ond mae *establishments* yn gwneud y tro.

8. ...sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...who prepare the foundation period*
2. *...which prepare children for the foundation stage*
3. *...that/which provide the Foundation Stage*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...that deliver the Foundation Phase*

SYLWADAU:

1. Gair eang ei ystyr yw 'darparu'. Gall olygu '*provide*' neu weithiau '*prepare*' e.e. 'darparu cinio', ond *deliver* neu '*teach*' sy'n gweddu i'r cyd-destun hwn.
2. Mae Afl.2 *which prepare children for the foundation stage* yn enghraifft o orgyfieithu.
3. Dylid gofalu cadw at yr un atalnodi â'r testun gwreiddiol. Mae priflythrennau ar ddechrau Cyfnod Sylfaen yn y gwreiddiol a dylid efelychu hyn yn y cyfieithiad.

9. ...yn ogystal â sefydliadau Addysg Uwch, consortia rhanbarthol a sefydliadau'r trydydd sector.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...in addition to Higher Education establishments, regional associations and organisations of the third sector.*
2. *...alongside Higher Education organizations, regional consortia and third sector establishments.*
3. *...as well as Higher Education institutions, regional consortia and third sector institutions.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...as well as Higher Education institutions, regional consortia and third sector organisations.*

SYLWADAU:

1. **'consortia rhanbarthol'**. Mae Afl.1 yn cynnig *regional associations* ond **'consortia'** sydd yn y gwreiddiol sy'n golygu casgliad o nifer o sefydliadau sy'n dod at ei gilydd i ddarparu busnes neu wasanaeth. Gwell cadw'r un enw yn y fersiwn Saesneg. (Dylid cofio mai enw sy'n deillio o'r Lladin ydyw!).
2. **'sefydliadau Addysg Uwch'**. Prifysgolion a sefydliadau eraill sy'n darparu addysg a hyfforddiant ar ôl 18 oed yw'r rhain, ac felly nid *'organisations'* ond *'establishments'* neu *institutions* sydd dan sylw.
3. **'sefydliadau'r trydydd sector'**. Yr un gair eto yn Gymraeg, ond mae gwybodaeth gyffredinol yn bwysig iawn i gyfieithydd. Mae'r trydydd sector yn cyfeirio at sefydliadau neu fudiadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau anllywodraethol etc. Y gair priodol yn Saesneg yw *organisations*. Mae Afl.1 yn cynnig *organisations of the third sector* sy'n glogyrnaidd.

10. Y gobaith yw y bydd y rhain yn rhannu arbenigedd, profiadau, gwybodaeth ac arferion â'i gilydd...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *The hope is for these leaders to share specialities, experiences, information and practise with each other,*
2. *It is hoped that these will share expertise, experiences, information and customs with each other,*
3. *The hope is for these to share expert knowledge, experiences, information and practices,*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *It is hoped that they will share expertise, experiences, information and best practice with each other,*
2. *The hope is that they will share expertise, experiences, information and practices with one another,*

SYLWADAU:

1. **'y gobaith yw y bydd y rhain'**. *The hope is/it is hoped that they* sy'n naturiol yn Saesneg, yn hytrach na *the hope is for them/these to*.
2. Nid oes angen *these leaders* (Afl.1) oherwydd mae'n glir at bwy y cyfeirir. Defnyddir y gair 'y rhain' yn aml yn Gymraeg i gyfeirio'n ôl at rywrai a enwyd yn flaenorol ond nid yw *'these'* mor gyffredin yn Saesneg er nad yw'n anghywir. Mae *'they'* yn fwy arferol.
3. Ystyr 'arbenigedd' yw *'expertise'* sef gwybodaeth a phrofiad mewn maes penodol. Gall *specialties* (Afl. 1) olygu rhywbeth tebyg, ond fe'i defnyddir fel rheol ym maes arlwyio i ddisgrifio diodydd neu fwydydd arbennig a gynigir mewn tai bwyta a hefyd ym myd meddygaeth i ddisgrifio meysydd arbenigol meddygon.
4. Gall 'arferion' olygu *customs* (Afl.2) ond unwaith eto, rhaid edrych ar y cyd-destun cyfan, a *practices* neu *best practice* sy'n briodol yn y cyd-destun hwn. Mae Afl.1 wedi camsillafu *'practice'* fel *'practise'* (y ferf). Yn anffodus ni ellir dibynnu ar wirydd sillafu i nodi gwallau o'r fath.

11. ...a bydd adnoddau ar-lein yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol hefyd ar gael i athrawon.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and that on-line resources will contain a wealth of useful information also available for teachers.*
2. *...and there will be online resources full of helpful information also available to teachers.*
3. *...and that online resources full of useful information will also be available to teachers.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...and on-line resources full of useful information will also be available to teachers.*

SYLWADAU:

1. Gwendid Afl.1 ac Afl.3 yw eu bod yn camddeall y gystrawen. Mae'r cymal yn agor gyda '**a bydd**' nid 'ac y bydd' felly nid yw'n is-gymal i '**y gobaith yw**'.
2. Mae Afl.2 wedi cadw'n rhy agos i'r Gymraeg, gyda'r ferf ar ddechrau'r cymal h.y. '**a bydd**' – *and there will be*. Er mwyn gweld y gwendid yn y mynegiant gellir tynnu allan yr ymadrodd disgrifiadol ar ôl y gair '*resources*' sy'n rhoi i ni *and there will be online resources...also available to teachers*. Mae'r cymal yn gywir ond yn glogyrnaidd. Gwell rhoi fel Ll.1 *and online resources...will also be available to teachers*.
3. Mae Afl.1 hefyd yn camddeall ystyr y cymal ac yn pwysleisio y bydd y wybodaeth, yn hytrach na'r adnoddau, ar gael i athrawon. Gellir dadlau mai gwahaniaeth bach yw hwn, nad yw'n gwneud fawr o wahaniaeth i'r ystyr sylfaenol, ond mae'n bwysig bod cyfieithydd yn arfer â chyflwyno nid dim ond ystyr y geiriau ond pwyslais y cyd-destun wrth gyfieithu.
4. Mae Afl.2 hefyd yn cyfieithu '**gwybodaeth ddefnyddiol**' fel *helpful information*. Gellid dadlau bod *useful* a *helpful* yn golygu'r un peth i bob pwrpas, ond dylid gochel rhag newid er mwyn newid.
5. Mae Afl.1 yn defnyddio'r addodiad '*for*': *available for teachers*. Arfer gorau yn Saesneg yw defnyddio '*available to*' + person neu endid arall fel sefydliad yn yr ystyr 'hygyrch', ac '*available for*' mewn cyd-destunau eraill. E.e. '*This book is available to teachers. This document is available for external use*'.

12. Bydd y rhwydwaith diweddaraf hwn yn gallu adeiladu ar lwyddiant modelau sydd eisoes ar gael mewn pynciau eraill fel Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *This latest network will be able to successfully build models that are already available in other subjects like Maths, Science and Technology.*
2. *This newly established/latest network will be able to build on the success of models currently available in other subjects such as Maths, Science and Technology.*

3. *This latest strategy will help to build on successful modules which are already available in other subjects such as Mathematics, Science and Technology.*
4. *This recently established network will be able to build on the success of previous models that are already available in other subjects such as Maths, Science and Technology.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *This most recent network will be able to build on the success of models already available in other subjects such as Mathematics, Science and Technology.*
2. *This latest network can build on the success of existing models in other subjects such as Mathematics, Science and Technology.*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 yn defnyddio *successfully build models*. Nid yw hyn yn cyfieithu 'adeiladu ar lwyddiant modelau', sef *build on the success of models*.
2. 'modelau sydd eisoes ar gael'. 'Already' yw ystyr 'eisoes' felly nid yw '*currently available*' (Afl.2) yn cyfleu'r ystyr yn gywir. Mae '*currently*' yn awgrymu y gallai'r modelau beidio â bod ar gael yn y dyfodol. Mae *that/which are already available* (Afl.1, Afl.3, Afl.4) yn gyfieithiad cywir ond mae *already available* yn ddigon da ar ei ben ei hun ac yn fwy cryno. Mae Ll.2 yn defnyddio *existing models* sy'n cyfleu'r un ystyr yn gryno.
3. Mae Afl.3 yn drysu rhwng 'modelau' a 'modiwlau'.
4. *previous models that are already available*. Wrth ddefnyddio 'previous' mae Afl.4 yn ailadrodd yr ystyr sydd ymhlyg yn 'already'.

13. Wrth lansio'r rhwydwaith, dywedodd Kirsty Williams,

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *While launching the network, Kirsty Williams said,*
2. *When launching the network, Kirsty Williams said,*
3. *As the network is launched, Kirsty Williams commented,*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Kirsty Williams said, as she launched the network,*
2. *Launching the network, Kirsty Williams said,*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 ac Afl.2 wedi cyfieithu'n rhy lythrennol, ac mae eu cynigion, er yn gywir yn ramadegol, yn swnio'n annaturiol yn Saesneg. Mae Afl.3 wedi drysu amseroedd y ddwy ferf, gyda'r ferf gyntaf yn y presennol, a'r ail yn y gorffennol. Hefyd mae wedi defnyddio ffurf oddefol y ferf, sy'n anghywir. Kirsty Williams oedd yn lansio'r rhwydwaith felly mae angen berf weithredol.
2. Mae Ll.1 yn agosach ati o ran naturioldeb mynegiant, ond mae cynnig Ll.2 yn gwbl naturiol a chryno. Yn Saesneg mae'n bosib cyfod ymadrodd yn cynnwys rhangymeriad presennol (berf yn gorffen gyda *-ing*) a berf arall gyda'r un person yn oddrych, i gyfleu bod yr ail weithred yn digwydd yr un pryd. Dyma ddwy enghraifft gyfredol a dynnwyd o bapurau

newydd:

Speaking at the Dublin City University (DCU) Brexit Institute, Mr Donohoe said the measure provides certainty...

Addressing a meeting of backbenchers, the PM reportedly said she would serve as "long as you want me to do".

14. "Mae ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud gwaith rhyfeddol.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Operators in the Foundation Period are doing wonderful work.*
2. *Practitioners of the Foundation Phase are undertaking remarkable work.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Practitioners in the Foundation Phase are doing amazing work.*

SYLWADAU:

1. Ystyr 'ymarferwr' yw *practitioner*, nid *operator* (Afl.1). Defnyddir 'ymarferwr'/'*practitioner*' mewn cyd-destunau proffesiynol a swyddogol i gyfeirio at rywun sy'n 'ymarfer' crefft neu alwedigaeth e.e. ym maes meddygaeth, gwaith cymdeithasol neu addysg.
2. Mae Afl.2 yn defnyddio *practitioners of* lle mae'r gwreiddiol yn defnyddio 'yn'.
3. Mae nifer o wahanol gyfieithiadau o '**gwaith rhyfeddol**' ac mae pob un yn foddhaol.

15. Er bod eu swydd yn un hynod o anodd, mae hefyd yn un fuddiol iawn,

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Although their job is tremendously demanding, it is also highly invaluable,*
2. *Although their job is remarkably difficult, it is also very rewarding,*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Despite their job being exceptionally difficult, it's also very beneficial,*
2. *They do a very difficult but worthwhile job,*

SYLWADAU:

1. Gellir cyfieithu '**hynod o anodd**' mewn sawl ffordd ac mae pob un o'r cynigion uchod yn iawn.
2. Mae 'buddiol' yn air eang ei ystyr ac felly'n fwy o her ei gyfieithu. Mae GPC yn cynnig: 'llesol, bendithiol, manteisiol, yn peri elw, defnyddiol, cynorthwyol, gweddus, cymwys' ac yn Saesneg: '*beneficial, conferring blessings, advantageous, profitable, expedient, useful, seemly, fitting*'. Yn y gogledd gall olygu hefyd rywbeth addas i'r pwrpas, sy'n gwisgo'n dda e.e. carped buddiol. Byddai cynnig Afl.1 *highly invaluable* yn well heb yr *highly* gan mai ystyr '*invaluable*' yw 'gwerthfawr dros ben'. Nid yw cynnig Afl.2 yn gywir oherwydd ei fod yn awgrymu budd i'r ymarferwr yn hytrach nag i'r plant sy'n cael eu haddysgu.
3. Mae cystrawen pob un o'r cynigion yn gywir. Mae LI.1 wedi cynnig cyfieithiad ychydig yn bellach o'r gwreiddiol ond nid yw'n well nag Afl.1 ac

Afl.2. Mae cynnig Ll.2 yn hynod o gryno ac eto'n cwmpasu holl ystyr y gwreiddiol, mewn modd llwyddiannus iawn.

16. ...ac mae'r ymarferwyr hyn yn haeddu pob cefnogaeth.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...these practitoners deserve a lot of support.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...these practitioners deserve every support.*

SYLW:

Mae cynnig Ll.1 yn agos i'r Gymraeg ond ni ddylai fod yn syndod bod llawer o idiomau'n debyg yn Gymraeg a Saesneg, ac mae *every support* yn gwbl briodol a naturiol ac yn nes at yr ystyr na chynnig Afl.1. Mae '**pob cefnogaeth**' yn golygu 'pob cefnogaeth bosib' ac yn gryfach nag *a lot of support*. Mae '*a lot of*' hefyd yn rhy anffurfiol. Dylai'r cyfieithydd gadw mewn cof fod y Gymraeg yn tueddu i fynegi graddau o ffurfioldeb trwy ffurfiau berfol, a'r Saesneg trwy eirfa.

17. "Bydd y rhwydwaith hwn a'i adnoddau ar-lein yn cynnig lefel newydd o ddatblygiad proffesiynol yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer ysgolion.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *This network and the online resources available will offer a whole new level of professional advancement in the Foundation Stage for Schools.*
2. *This network and its on-line facilities will offer a new level of professional development for schools during the Foundation Stage.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *This network and its online resources will offer a new level of professional development for schools during the Foundation Phase.*

SYLWADAU:

1. 'Y rhwydwaith hwn a'i adnoddau ar-lein' sydd yn y gwreiddiol felly nid yw cynnig Afl.1 *This network and the online resources available* yn gywir oherwydd adnoddau'r rhwydwaith ydynt.

2. Mae Afl.1 yn cyfieithu '**lefel newydd**' fel *whole new level* sy'n awgrymu pwyslais nad yw yn y gwreiddiol.

3. Mae cynnig Afl.1, *professional advancement* yn awgrymu dyrchafiad. Mae ystyr '**datblygiad proffesiynol**' yn cyfeirio at y ffordd mae deiliaid swyddi yn dysgu sgiliau a medrau newydd i'w helpu i wneud eu swyddi'n well.

3. Mae Afl.2 wedi defnyddio *facilities* i gyfleu '**adnoddau**'. Defnyddir '*facility*' fel rheol i gyfeirio at safle, peirianwaith neu gyfarpar sy'n gallu hwyluso gweithgaredd. Gall 'cyfleusterau' fod yn 'adnoddau' hefyd wrth gwrs, ond gan mai 'adnoddau ar-lein' sydd dan sylw yma, ni fyddai'n gywir cyfeirio atynt fel *facilities*.

18. Mae'r datblygiad hwn yn mynd i wraidd

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *This development is getting to the root of...*
2. *This development goes to the root of...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *This development goes to the heart of...*

SYLWADAU:

1. Afl.1. Gellir cyfieithu'r ferf gwmpasog yn Gymraeg (berf 'bod' + 'yn' + berfenw) gyda berf gwmpasog neu ferf gryno yn Saesneg, yn dibynnu ar y cyd-destun. Yma mae angen y ferf gryno, nid y ferf gwmpasog. Defnyddir y ferf gwmpasog yn Saesneg i fynegi gweithred sy'n digwydd ar y pryd a heb ei orffen. Defnyddir y ferf gryno i fynegi sefyllfa fwy parhaol a digyfnewid .e.e. *John is drinking his coffee/John works in an office. The workmen are digging the foundations/These men work for the builder.*

2. Mae Afl.2 yn defnyddio 'goes to the root of' sydd hefyd yn gywir. Yn Saesneg ystyr 'get/go to the root of' yw darganfod achos gwaelodol neu ddechreuad rhyw fater, yn aml wrth geisio datrys problem. 'He tried to get to the root of the problem'. Yma mae cynnig Ll.1 yn fwy addas.

19. ...yr hyn a welwn ni fel ein cenhadaeth genedlaethol,

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...our national mission*
2. *...what we see as a national generation...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...what we see as our national aim,*
2. *...what we see as our national mission,*

SYLWADAU:

1. Nid yw Afl.1 wedi cyfieithu 'yr hyn a welwn'.

2. Mae Afl.2 wedi drysu rhwng 'cenhadaeth' a 'cenhedlaeth'. Hawdd camddarllen gair wrth gyfieithu ond dylai'r cyd-destun fod yn glwi.

3. Mae *aim* (Ll.1) a *mission* (Ll.2) ill dau yn gywir.

20. ...ac mae'r cwricwlwm newydd yn ymwneud â chodi safonau, lleihau'r bwch cyrhaeddiad a darparu system addysg...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...and the new curriculum deals with raising standards, reducing the gap in abilities and preparing an education system...*
2. *...and the new curriculum involves raising standards, minimising the achievement gap and providing an educational system...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...and the new curriculum deals with raising standards, reducing the attainment gap and providing an education system...*

2. *...and the new curriculum is all about raising standards, narrowing the attainment gap and providing an education system...*
3. *...and the new curriculum involves raising standards, reducing the attainment gap and providing an education system...*
4. *...and the new curriculum deals with the raising of standards, the reduction of the attainment gap and the provision of an education system...*

SYLWADAU:

1. **'Yn ymwneud â'**. Fel y gwelir mae sawl ffordd o gyfieithu'r ferf hon. Mae *deals with*, *involves* ac *is all about* i gyd yn addas. Byddai 'is concerned with' hefyd yn gwneud y tro, neu hyd yn oed 'the focus of the new curriculum is'.
2. **'codi safonau, lleihau... a darparu'**. Yn aml ceir enw yn Saesneg lle mae'r Gymraeg yn defnyddio berfenw felly mae cynnig Ll.4, *the raising... the reduction... and the provision of* yn gwbl gywir. Ond mae defnyddio'r rhangymeriad presennol (berf + *-ing*) fel y gwna Ll.1, Ll.2 a Ll.3, ac Afl.1 a Afl.2, yn gweithio cystal.
3. **'y bwlch cyrhaeddiad'**. *Attainment gap* yw'r cyfieithiad cywir. Rhaid cofio bod gwahaniaeth rhwng iaith gyffredinol a geiriau a ddefnyddir mewn cyd-destun penodol at bwrpas penodol. Yn gyffredinol nid oes fawr o wahaniaeth rhwng 'cyrhaeddiad/*attainment*' a 'cyflawniad/*achievement*' a gellid eu defnyddio drwy'r trwch. Ym maes addysg fodd bynnag mae gwahaniaeth pendant rhwng y ddau. Ystyr '*attainment*' ym maes addysg yw 'mesuriad sy'n cymharu cyflawniad pob plentyn yn yr ysgol yn erbyn meincnod safonol ar gyfer ei lefel oedran, heb ystyried cynnydd y plentyn unigol'. Ystyr 'cyflawniad' yw mesuriad o gynnydd y plentyn unigol o'i fan cychwyn personol. Mae 'bwlch cyrhaeddiad' yn cyfeirio at y gwahaniaeth yn lefel cyrhaeddiad plant o wahanol gefndiroedd e.e. plant o wahanol gefndiroedd economaidd. Felly nid *gap in abilities* (Afl.1) nac *achievement gap* (Afl.2) mohono.
4. Unwaith eto, rydym yn dod ar draws y gair 'darparu' ac yn y fan hon, nid yw *prepare* yn gyfieithiad da.
5. Unwaith eto, mae gwahaniaeth ystyr rhwng *educational system* (Afl.2) sy'n golygu system sy'n addysgol ei natur, ac *education system* – sef system sy'n darparu addysg. Cymharwch '*visiting the museum was an educational experience*' – profiad sy'n addysgol ei natur.

21. ...y gall pawb ohonom ymfalchïo ynddi.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...in which all of us can pride ourselves.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...that we can be proud of.*
2. *...in which we can all take pride.*
3. *...that we can all take pride in.*

SYLWADAU:

1. Yn wahanol i'r hyn a gredir gan rai, mae'r Saesneg yn caniatáu arddodiad ar ddiwedd brawddeg ac weithiau mae'n anodd osgoi hynny.

Felly mae Ll.1 a Ll.3 yn gwbl gywir. Ond yn yr achos hwn mae'n bosib osgoi hynny trwy wneud fel Ll.2 a gosod yr arddodiad ar ddechrau'r cymal.

2. Ystyr 'ymfalchïo' yw bod yn falch o rywbeth, yn yr achos hwn, o'r cwricwlwm newydd. Ystyr '*pride oneself*' yw ymfalchïo mewn nodwedd neu fedr bersonol e.e. '*He prides himself in his appearance*'. '*She prides herself in her musical abilities.*' Felly nid yw cynnig Afl.1 yn gywir.